**Conwy Diogelach / Safer Conwy**
**Ymddygiad Gwrthgymdeithasol / Anti-social Behaviour**
**Gwasanaeth Rheoleiddio a Thai / Regulatory & Housing Services**
*Pennaeth Gwasanaeth/Head of Service – Peter Brown & Superintendent Helen Corcoran*

**Cyfeiriad Post / Postal Address:** Blwch Post 1, CONWY, LL30 9GN
PO Box 1, CONWY, LL30 9GN

***Gweithio gyda'n gilydd i wneud ein cymuned yn ddiogelach***
***Working together to make our community safer***

**This document is also available in English**

Preswylydd / Resident
Porth Eirias  Bae Colwyn
Conwy

Gofynnwch am / Please ask for: Emma Dowell
**01492 575113**
**saferconwy@conwy.gov.uk**
Ein Cyf / Our Ref: Porth Eirias
Eich Cyf / Your Ref:
Dyddiad / Date: Ionawr / Jan 2024

Annwyl Breswylydd


**CAMERA TELEDU CYLCH CAEËDIG - Porth Eirias**
Y lleoliad arfaethedig yw ar Adeilad Porth Eirias yn edrych dros y traeth sych.

Ysgrifennwn atoch i'ch hysbysu bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ystyried gosod camera TCC Man Cyhoeddus parhaol wrth ymyl eich cartref fel y dangosir isod;

*Llun1; Delwedd 'Google image' o'r lleoliad arfaethedig*



Llun*2*; Parth preifatrwydd y camera presennol ar Greenfield Road




Mae gwaith gosod y camerâu hyn yn cael ei ariannu gan y 'Gronfa Strydoedd Mwy Diogel' sy'n rhan o weithredu ar y cyd gan y llywodraeth i fynd i'r afael â throseddau. [Safer Streets Fund to tackle burglary and theft - GOV.UK (www.gov.uk)].

Oherwydd bod eich cartref o fewn yr ardal y bwriedir gosod y camera, rydym yn rhoi cyfle i chi ddweud eich dweud. Hoffem eich sicrhau y bydd unrhyw ffenestr sy'n uniongyrchol gyferbyn â chamera TCC yn cael eu sgrinio trwy ddefnyddio parthau preifatrwydd (sgwariau duon fel y gwelir yn yr enghraifft uchod) er mwyn ei gwneud yn amhosibl i unrhyw weithredydd ymyrryd â'ch preifatrwydd. [Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – Hysbysiad Preifatrwydd Llawn]

Os hoffech chi roi sylwadau mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, cysylltwch â Rheolwr TCC Conwy yn defnyddio'r manylion cyswllt ar frig y llythyr hwn.